



YSGOL TREGARTH

Tregarth, Gwynedd, LL57 4PG

Ffôn/Phone: 01248 600735 E-bost /E-mail: LliwenHafJones@gwynedd.gov.uk

Pennaeth / Headteacher: Mrs. Lliwen Jones

Dosbarth Idwal – Meithrin, Derbyn a Blwyddyn 1

Croeso a phwy 'di pwyl

Croeso cynnes i chi fel rhieni/gwarchodwyr i Ddosbarth Idwal. Hoffwn gyflwyno staff y dosbarth i chi, sef Miss Ild Humphreys (athrawes), Miss Catrin Parry (cymhorthydd dosbarth) a Miss Michelle Roberts (cymhorthydd dosbarth). Ein thema ar gyfer yr hanner tymor cyntaf hwn ydi 'Fy ffrindiau a fi' a byddwn yn canolbwyntio ar elfennau o fywyd teuluol, aelodau'r teulu ac yn dysgu am y corff a'r synhwyrâu. Byddwn hefyd yn trafod ychydig am hen deganau. Os oes gennych unrhyw arteffactau, llyfrau neu luniau byddwn yn gwerthfawrogi'n fawr petai modd i ni eu benthyg. Bydd gennym ardal chwarae rôl meddygfa yn y dosbarth, gadewch i ni wybod os oes gennych arbenigedd yn y maes hwn – byddai ymweliad neu sgwrs yn brofiad gwych i'r plant!

Trefniadau darllen

Bydd disgyblion Dosbarth Derbyn a Blwyddyn 1 yn dod a ffolderi darllen adref. Bydd y ffolderi yn cael eu rhannu bob Dydd Gwener a gofynnwn yn garedig i chi eu dychwelyd ar Ddydd Llun. Bydd manylion pellach yn cael eu rhannu gyda chwi yn ystod yr wythnosau nesaf.

Addysg Gorfforol

Bydd eich plentyn angen gwisg addas ar gyfer gweithgareddau addysg gorfforol, sef crys-t a siorts. Bydd y dillad yn cael eu cadw yn yr ysgol am y tymor. Nid ydynt angen esgidiau arbennig ar hyn o bryd – byddwn yn gadael i chi wybod petai hyn yn newid yn ystod y flwyddyn.

Esgidiau glaw

Mae gweithgareddau yn yr ardal tu allan yn rhan greiddiol o'r Cyfnod Sylfaen ac mae'r disgyblion yn profi gweithgareddau mewn amrywiaeth o dywydd. A fyddai modd i'ch plentyn ddod ag esgidiau glaw mewn bag wedi ei labelu gyda'u henw er mwyn i ni eu cadw yn yr ysgol am y flwyddyn os gwelwch yn dda.

Labelu dillad

Rydym yn sylweddoli fod gwisg ysgol yn gostus ac felly gofynnwn yn garedig i chi sicrhau fod pob eitem o ddillad wedi ei labelu gyda enw eich plentyn er mwyn lleihau'r posibilrwydd o golli eitemau o ddillad.

Class dojo

Mae'r ysgol yn defnyddio 'Class dojo' fel un dull o gyfathrebu gyda rhieni. Byddwn yn anfon manylion ymuno i chi fel rhieni yn ystod yr wythnosau nesaf er mwyn i chi allu derbyn gwybodaeth sydd yn berthnasol i'ch plentyn.

Pwy sy'n nol eich plentyn o'r ysgol

Er mwyn sicrhau diogelwch eich plentyn a fyddai modd i chi adael i ni wybod os fydd rhywun gwahanol i'r arfer yn dod i nol eich plentyn o'r ysgol neu unrhyw newid i'r drefn arferol drwy ddweud wrth y staff yn bersonol neu ffonio'r ysgol ymlaen llaw.

Arbenigedd

Cofiwch adael i ni wybod os oes gennych arbenigedd mewn unrhyw faes allai fod o gymorth i ni yn yr ysgol, e.e. garddio neu adeiladu.

Diolch yn fawr iawn i chi am eich cyd-weithrediad a'ch cefnogaeth. Cofiwch gysylltu os oes gennych unrhyw bryderon neu os ydych yn ansicr ynglŷn â unrhyw beth. Miss Ild Humphreys